1. PRIF NEGESEUON

Maes 1 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Rhoi'r **cychwyn gorau** i'n plant yn yr iaith drwy ehangu cefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo a defnyddio'r iaith yn y cartref a thrwy ehangu darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

- System addysg statudol sy'n **cynyddu a chynnal nifer y siaradwyr Cymraeg** hyderus

- Datblygu darpariaeth ôl-statudol sy'n cynyddu cyfraddau **dilyniant** ac yn cefnogi pawb, beth bynnag fo'u gafael ar yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg er mwyn eu defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

- Er mwyn i hyn ddigwydd, **cynllunio** er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:

    - y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy'r Gymraeg
    - yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen er mwyn caniatáu cynyddu'r ddarpariaeth.

Maes 2 – Defnyddio'r Gymraeg

- Gwreiddio **arferion ieithyddol** cadarnhaol, yn arbennig ymysg teuluoedd, plant a phobl ifanc
- Sicrhau bod digonedd o **gyfleoedd** ffurfiol ac anffurfiol i bawb ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Dod â'r **gweithle** i ganol y llwyfan hybu a hwyluso, er mwyn:
    - adlewyrchu ei bwysigrwydd cynyddol fel gofod/lle ar gyfer darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd.
    - adlewyrchu'r ffaith bod defnydd o'r Gymraeg gan y gymuned fusnes yn normaleiddio'r iaith ac yn cyfrannu at gynyddu ei statws a'r bri a roddir arni o safbwynt cwsmeriaid a'r gweithlu.
- Mynd â **gwasanaethau Cymraeg** at y defnyddiwr, yn hytrach na bod y defnyddiwr yn gorfod canfod y gwasanaeth, drwy gynllunio'r gweithlu a newid meddylfryd

Maes 3 – Hinsawdd ac Isadeiledd

- Cefnogi **isadeiledd economaidd-gymdeithasol** cymunedau Cymraeg - er mwyn rhoi'r dyfodol gorau posib iddynt mae ar bobl angen swyddi a chartrefi o ansawdd da i fyw neu ddychwelyd iddynt
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth i greu pontydd rhwng **Cymru a'r byd** a'i gwneud yn gyfrwng i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru
- Adeiladu ar **ewyllys** da tuag at yr iaith drwy farchnata, newid ymddygiad, normaleiddio, a sicrhau bod y Gymraeg yn elfen annatod o naratif / arlwy diwylliannol Cymru bob amser
- Gwreiddio **cynllunio ieithyddol** a hybu iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol; deall yn well a chefnogi dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg; a chydnabod pwysigrwydd y negesydd ac anghenion gwahanol gynulleidfaoedd
- Sicrhau bod **seilwaith ieithyddol** y Gymraeg yn gyfoes ac yn parhau i ddatblygu
- Sicrhau bod **syflaen ddeddfwriaethol** y Gymraeg yn addas ac yn gyfredol.